**Vaughan Gething AS/MS**
**Gweinidog yr Economi**
**Minister for Economy**

Ein cyf/Our ref MA/VG/3715/22

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Delyth Jewell AS
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol
SeneddDiwylliant@senedd.cymru

15 Rhagfyr 2022

Annwyl Delyth

Hoffwn ddiolch i chi a'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol am ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol (Memorandwm Rhif 2), a osodwyd gerbron y Senedd ar 28 Medi 2022 mewn perthynas â Bil Diogelwch Ar-lein Llywodraeth y DU.

Rwy'n croesawu'r adroddiad a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor ar 5 Rhagfyr, sy'n nodi bod yr Aelodau yn cytuno bod angen cydsyniad ar gyfer cymalau 156-158 (cymalau 151-152 fel y'u cyflwynwyd) a chymal 162 Troseddau cyfathrebu (cymal 155 fel y'i cyflwynwyd).

Nodaf hefyd yr argymhelliad a wnaed gan y Pwyllgor, sef bod angen cydsyniad yn eu barn hwy ar gyfer cymal 165 (cymal 159 fel y'i cyflwynwyd) ac Atodlen 14. Mae dadansoddiad cyfreithiol pellach gan fy swyddogion yn cadarnhau bod angen cydsyniad ac o'r herwydd bydd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol arall (Memorandwm Rhif 4) yn cael ei gyflwyno.

Hoffwn hefyd ddwyn i'ch sylw bod y 'drosedd gyfathrebu niweidiol' a nodwyd yng nghymal 151 wedi'i hepgor o'r Bil yn y Cyfnod Adrodd ar 5 Rhagfyr, nodir hyn yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol (Memorandwm Rhif 4).

Yn gywir,

Vaughan Gething

**Vaughan Gething AS/MS**
Gweinidog yr Economi
Minister for Economy

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.